# Yn fanwl – Deddfwriaeth Bioamrywiaeth

Mae amddiffyn natur yn gyfreithiol â'i wreiddiau yn y 19eg ganrif, yn seiliedig ar amddiffyn adar gwyllt. Mae deddfwriaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd a safleoedd arbennig wedi bod yn ysbeidiol, ond mae gennym nawr amrywiol gyfreithiau gwahanol, yn genedlaethol a rhyngwladol, yn amddiffyn ein rhywogaethau a'n cynefinoedd pwysig sydd angen eu hystyried wrth ymgymryd â gweithgareddau a allai effeithio bywyd gwyllt.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae gwybodaeth bellach ar y rhain, gan gynnwys dyfyniadau llawn, i'w gweld ar wefan y Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur: http://jncc.defra.gov.uk/ a'r gwefannau unigol isod.

## 1. Ewropeaidd

**Cyfarwyddeb Cyngor CE 2009/147/EC (fersiwn ysgrifenedig) a 79/409/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt 2009 (y Gyfarwyddeb Adar)**

Fframwaith ar gyfer amddiffyn a chadwraeth Adar Gwyllt yn Ewrop, hefyd yn gweithredu Cynhadledd Bern. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar amddiffyn cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau mewn perygl a rhai mudol trwy sefydlu SPA (gweler safleoedd Natura 2000) a gweithgareddau sy'n bygwth adar, megis dal a lladd bwriadol, dinistrio nythod a chymryd wyau. Gwybodaeth bellach yn:
http://.ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm.

**Cyfarwyddeb Cyngor CE 2004/35/EC ar Atebolrwydd Amgylcheddol mewn perthynas â Rhwystro ac Adfer Niwed Amgylcheddol (y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol) 2004**

Yn diffinio'n benodol niwed amgylcheddol felly mae'n cynnwys niwed i rywogaethau wedi eu hamddiffyn a chynefinoedd naturiol a restrir yn y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd, neu gynefinoedd y mae Aelod-Wladwriaeth wedi eu pennu i bwrpasau sy'n cyfateb i bwrpasau Cyfarwyddebau Cynefinoedd. Mae'n sefydlu fframwaith yn seiliedig ar egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' ac mae'n cynnwys, ymhlith gofynion rhwystro ac adfer amglcheddol eraill, ddarpariaethau i adfer niwed amgylcheddol ar safleoedd sydd wedi eu dosbarthu dan y Gyfarwyddeb Adar (Ardal Gwarchodaeth Arbennig - AGA) ac wedi eu dynodi dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Ardal Cadwraeth Arbennig - ACA). Mae gwybodaeth bellach yn http://ec.europa.eu/environment/legal/liability/index.htm

**Cyfarwyddiadau Asesu Amgylcheddol (Cyfarwyddyd Cyngor CE 2001/42/EC ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgylchedd (Asesiad Amgylcheddol Strategol) a 85/337/EEC ar Asesu Effaith Prosiectau Cyhoeddus a Phreifat Penodol ar yr Amgylchedd (Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd))**

Angen asesiadau ar gyfer effeithiau amgylcheddol cynlluniau, rhaglenni neu brosiectau penodol. Egwyddor y Cyfarwyddiadau yw sicrhau bod cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn destun asesiad

amgylcheddol, cyn cymeradwyo neu awdurdodi'r rhaglenni neu'r cynlluniau hynny. Cyhoeddwyd arweiniad yamrferol ar yr asesiadau hyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd: www.environment-agency.gov.uk ac mae gwybodaeth bellach ar y Cyfarwyddiadau yn: http://ec.europa.eu/environment/eia/home.htm.

**Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd 2000**

Y nod yw hyrwyddo gwarchod tirwedd, rheoli a chynllunio a threfnu cydweithrediad Ewropeaidd ar faterion tirwedd. Mae gwybodaeth bellach yn www.coe.int/t/dg4/cultureheritage/landscape/default_en.asp

**Cyfarwyddeb Cyngor CE 2000/60/EC Sefydlu Fframwaith ar gyfer Gweithredu Cymunedol ym Maes Polisi Dŵr 2000 (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)**

Pennu amcanion amddiffyn dŵr trwy agwedd holistig gydag amcan bod holl gyrff dŵr yn cyrraedd 'statws da' erbyn 2015. Mae'r Cyfarwyddyd yn gofyn i wladwriaethau fabwysiadu un system o reoli dŵr trwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd – gan ddefnyddio unedau daearyddol a hydrolegol naturiol yn hytrach na ffiniau gweinyddol a/neu wleidyddol. Blaenoriaethau allweddol yw amddiffyniad cyffredinol ecoleg dŵr, amddiffyniad penodol cynefinoedd unigryw a gwerthfawr, amddiffyn adnoddau dŵr yfed ac amddiffyn dŵr ymdrochi. Caiff ei weithredu yn y DU gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gwybodaeth bellach yn: http://.ec.europa.eu/environment/water/water-framework.info/intro_en.htm.

**Rheoliadau CITES CE (Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 338/97 Rheoliad Masnach Bywyd Gwyllt Undeb Ewrop (1997) a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 865/2006**

Rheoliadau sy'n cryfhau rheolaeth mewnforio ac allforio i amddiffyn rhywogaethau a fygythir a rheoleiddio masnach ryngwladol. Maent yn gweithredu'r Confensiwn ar Fasnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl (CITES), a'r pwrpas yw sicrhau nad oes unrhyw rywogaeth o ffawna neu fflora gwyllt yn dod, neu'n parhau yn destun i, ecsbloetio oherwydd masnach rhyngwladol. Mae gwybodaeth bellach yn: http://.ec.europa.eu/environment/cites/legis_wildlife_en.htm a www.cites.org.

**Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992**

Sefydlu tri prif amcan: gwarchod amrywiaeth fiolegol; defnydd cynaliadwy ei amrywiol rannau, a rhannu'n deg a chyfartal y manteision o ddefnyddio adnoddau genetig. Mae gwybodaeth bellach yn www.cbd.int

**Cyfarwyddeb CE 92/43/EEC ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol ac Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt 1992 (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)**

Gweithredu cytundebau Cynhadledd Bern, amcan y cyfarwyddyd yw amddiffyn bioamrywiaeth trwy gadwraeth cynefinoedd naturiol a rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt. Mae'n gofyn am gynnal ac adfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ar statws cadwraeth ffafriol, pennu rheoliadau i'w hamddiffyn, rheoli ac ecsbloetio, a'u hamddiffyn gyda chyfres

o safleoedd dynodedig a elwir yn safleoedd Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – SAC – ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Adar– SPA) a system lem o amddiffyn rhywogaethau. Mae gofyniad hefyd i oblygiadau datblygiadau arfaethedig, cynlluniau neu brosiectau yn neu'n agos at safleoedd Natura 2000 gael eu hasesu i sicrhau nad oes niwed arwyddocaol tebygol yn cael ei wneud i unrhyw nodweddion a amddiffynnir – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gwybodaeth bellach ar y cyfarwyddyd yn http://.ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index_en.htm.

### Confensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt Ewropeaidd a Chynefinoedd Naturiol 1979

Yn cynnwys cyfrifoldebau i warchod planhigion, adar ac anifeiliaid gwyllt eraill, gyda phwyslais arbennig ar rywogaethau mewn perygl a bregus a'u cynefinoedd. Mae darpariaethau'r Confensiwn yn sylfaen i Gyfarwyddeb Cynefinoedd CE ynghyd â deddfwriaeth bywyd gwyllt y DU. Mae gwybodaeth bellach yn www.coe.int/t/dg4/cultureheritage/nature/bern/default_en.asp

### Confensiwn Bonn ar Gadwraeth Rhywogaethau Ymfudol Anifieiliaid Gwyllltimals 1979

Confensiwn fframwaith sy'n gofyn am warchod rhywogaethau ymfudol mewn perygl a restrir yn ei atodiadau. Mae'n annog cytundebau rhyngwladol ar wahân ar gyfer rhywogaethau penodol. Er enghraifft, mae cytundeb ar gyfer Cadwraeth Ystlumod yn Ewrop yn delio â'r angen i amddiffyn ystlumod yn eu hardaloedd bwydo a'u clwydi. Mae gwybodaeth bellach yn www.cms.int

### Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar y Dŵr 1971

Yn gofyn am gadwraeth gwlyptiroedd, yn enwedig safleoedd wedi eu rhestru dan y Confensiwn. Mae gwybodaeth bellach yn www.ramsar.org

## 2. Cymru a Lloegr

### Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Yn trosi darpariaethau Cyfarwyddyd Cynefinoedd CE yn gyfraith y DU ac (er 2012) Erthygl 2 y Gyfarwyddeb Adar. Mae'r rheoliadau hyn yn atgyfnerthu a diweddaru Rheoliadau blaenorol Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (Diwygiad) 2007 a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994. Maent hefyd yn cynnwys darpariaethau newydd i weithredu agweddau o Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009. Dyma'r brif ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn bioamrywiaeth ac mae'n gofyn am ddynodi safleoedd Natura 2000 yn y DU, eu hamddiffyniad a rheoli ac amddiffyn Rhywogaethau Ewropeaidd a Amddiffynnir, a restrir yn atodlenni 2 a 5. Mae'r rheoliadau llawn yn: www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/contents/made.

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd) 2011**

Trawsosod gofynion y Gyfarwyddeb ar Asesu Effeithiau Prosiectau Cyhoeddus a Phreifat Penodol ar yr Amgylchedd 85/337/EEC yn gyfraith y DU. Mae'r rheoliadau yn gofyn am ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd cyn cymryd penderfyniad ar a ddylid rhoi caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau penodol sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Mae'n nodi pa fathau o ddatblygiad sy'n debygol o fod angen yr Asesiad naill ai fel atodlen 1 (gorfodol) neu atodlen 2 (dewisol). Gellir eu darllen yn llawn yn www.legislation.gov.uk/uksi/2011/1824/contents/made

**Rheoliadau Niwed Amgylcheddol (Rhwystro ac Adfer) 2009**

Pennu ymrwymiadau ar weithredwyr gweithgareddau economaidd yn gofyn iddynt rwystro, cyfyngu neu adfer niwed amglcheddol – egwyddor y 'llygrwr sy'n talu'. Mae'r rheoliadau'n ymwneud â niwed amgylcheddol difrifol i dir, dŵr, rhywogaeth a chynefin. Gwybodaeth bellach yn: www.legislation.gov.uk/uksi/2009/153/memorandum/contents.

**Deddf Mynediad Morol ac Arfodriol 2009**

Sefydlu, ymhlith pethau eraill, Cyfundrefn Rheoli Morol i reoleiddio a rheoli'r ardal forol o gwmpas Lloegr ac ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu cadwraeth natur penodol (dan Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970 a Deddf Bywyd Gwyllt  Chefn Gwlad 1981). Mae hefyd yn darparu pwerau gorfodi i Swyddogion Gorfodi Morol i archwilio troseddau cadwraeth natur penodol yn yr ardal forol a gwneud darpariaeth i sefydlu llwybr cerdded arfordirol yn Lloegr a hawliau mynediad i dir ger arfordir Lloegr a galluogi gwneud mesurau cynulliad mewn perthynas â llwybrau arfordirol a hawliau mynediad yng Nghymru. Mae'r Ddeddf gyfan ar gael i'w darllen yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/contents.

**Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd Alltraeth (Cynefinoedd ac ati) 2007**

Trosi darpariaethau Cyfarwyddiadau Cynefinoedd ac Adar CE yn ymwneud â dyfroedd alltraeth y DU (y môr y tu hwnt i 12 milltir forol o'r arfordir) yn gyfraith y DU. Mae'r rheoliadau llawn ar gael yn: www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1842/contents/made.

**Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006**

Gweithredu Strategaeth Wledig y Llywodraeth (2004) a delio ag ystod o faterion eraill sy'n ymwneud yn fras â'r amgylchedd naturiol gan gynnwys cyrff rheoleiddio a hawliau tramwy. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer bioamrywiaeth, pla-leiddiad sy'n niweidio bywyd gwyllt ac amddiffyn adar a Rhywogaethau Goresgynnol nad ydynt yn rhai Cynhenid. Mae hefyd yn newid pwerau gorfodi mewn cysylltiad ag amddiffyn bywyd gwyllt. Mae Adran 40 y ddeddf yn rhoi dyletswydd bioamrywiaeth ar gyrff cyhoeddus i ystyried pwrpas cadw bioamrywiaeth ac mae adran 42 yn gofyn am gyhoeddi rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwysigrwydd mawr i gadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru (adran 41 ar gyfer Lloegr) a ddefnyddir i arwain cymerwyr penderfyniad wrth weithredu eu dyletswyddau dan adran 40. Mwy o wybodaeth ar y ddeddf yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/16/notes/contents.

**Rheoliadau Asesiad Amglcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

Trawsosod gofynion Cyfarwyddeb Cyngor CE ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgychedd 2001/42/EC. Mae'r rheoliadau yn gofyn am asesiad amgylcheddol cyn bod cynlluniau neu raglenni penodol sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn cael eu mabwysiadu neu eu cyflwyno i'r drefniadaeth ddeddfwriaethol i gael eu cymeradwyo. Gellir eu darllen yn llawn yn www.legislation.gov.uk/uksi/2004/1633/contents/made

**Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CroW) 2000**

Yn newid Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'n cynnwys mesurau i wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad agored a thir comin ac yn newid y gyfraith mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chadwraeth natur. Mae'n cryfhau amddiffyniad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn cynnwys cosbau llymach trwy roddi pwerau ychwanegol erlyn am droseddau bywyd gwyllt, yn rhoi sylfaen i gadwraeth bioamrywiaeth, darparu ar gyfer gwell rheolaeth o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac yn rhoi dyletswydd ar Lywdoraeth Cynulliad Cymru ac adrannau llywodraeth i roddi ystyriaeth i fioamrywiaeth. Mae adran 74 yn cynnwys rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o bwysigrwydd cadwraeth ond mae hon wedi ei disodli gan restr adran 42 a gynhwysir yn Neddf NERC 2006. Mwy o wybodaeth ar y ddeddf yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/notes/division/1.

**Deddf Llywodraeth Leol 2000**

Gofyn i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gymunedol ar gyfer hyrwyddo a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal a chyfrannu tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy yn y DU. Argymhellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod Cynlluniau Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) yn sylfaen i strategaethau cymunedol.

**Rheoliadau Gwrychoedd 1997**

Rhwystro tynnu ymaith neu niweidio gwrychoedd penodol heb ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ymlaen llaw. Defnyddir meini prawf amrywiol yn y rheoliadau i adnabod ac amddiffyn gwrychoedd am resymau bywyd gwyllt, tirwedd a/neu hanesyddol. Mae'r rheoliadau llawn i'w gweld yn: www.legislation.gov.uk/uksi/1997/1160/contents/made.

**Deddf yr Amgylchedd 1995**

Sefydlodd Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd ac asiantaeth amddiffyn yr amgylchedd yn yr Alban. Mae'r ddeddf hefyd yn delio â rheoli llygredd, cadwraeth adnoddau naturiol, darpariaethau ar gyfer tir halogedig a hen fwyngloddiau ac yn rhoi amddiffyniad i wrychoedd pwysig. Y ddeddf lawn yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/contents.

**Deddf Amddiffyn Moch Daear 1992**

Cyfuno deddfwriaeth flaenorol (Deddf Moch Daear 1973, Deddf Moch Daear 1991 a Deddf (Amddiffyniad Pellach) Moch Daear 1991) yn rhoi amddiffyniad i foch daear a'u gwal. Mae'r ddeddf lawn i'w gweld yn www.legislation.gov.uk/ukpga/1992/51/contents.

**Deddf Cynllunio a Digolledu 1991**

Gwella galluoedd awdurdodau cynllunio lleol i ddiogelu ardaloedd cadwraeth a mwynderau trwy gryfhau pwerau gorfodi cynllunio a rheoli datblygu. Roedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu gynnwys polisïau mewn perthynas â chadwraeth harddwch naturiol a mwynderau tir. Gellir ei darllen yn llawn yn www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/34/contents

**Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd (EPA) 1990**

Sefydlodd English Nature (Natural England nawr), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) a'r Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a gofyn iddynt reoli gwarchodfeydd natur a rhoi cyngor cadwraeth natur ar gyfer eu rhanbarthau. Roedd y ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoli llygredd a gwastraff ac amrywiol gyfreithiau gan gynnwys rhai ar aer glân, sbwriel a sylweddau ymbelydrol. Mae'r ddeddf lawn i'w gweld yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents.

**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**

Cyfuno holl ddarpariaethau presennol ar gyfer adar ac anifeilaid ac ymestyn y rhestr o rywogaethau a amddiffynnir i gynnwys planhigion. Mae'r ddeddf yn gwahardd dulliau penodol i ladd neu gymryd anifeiliaid gwyllt, yn sicrhau dynodi a rheoli SSSI ac yn rhwystro cyflwyniad Rhywogaethau Goresgynnol heb fod yn rhai Cynhenid. Cyflwyno categori Ardaloedd Morol a Amddiffynnir yn y DU. Mae'r ddeddf wedi ei diwygio gan Ddeddf CroW 2000, gweler uchod. Y ddeddf lawn i'w gweld yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/contents.

**Deddf Cefn Gwlad 1968**

Cryfhau llawer o'r pwerau a roddwyd dan Ddeddf 1949 a phennu ar Weinidogion, adrannau llywodraeth a chyrff cyhoeddus ddyletswydd i roddi ystyriaeth i ddymunoldeb gwarchod harddwch naturiol a mwynderau cefn gwlad wrth ymgymryd â'u swyddogaethau mewn perthynas â thir. Gellir ei darllen yn llawn yn www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/41

**Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949**

Cyflwyno syniad Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n bwysig am eu planhigion a'u hanifeiliaid, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol (tirffurf) ac roedd yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol i greu gwarchodfeydd natur. Gellir ei darllen yn llawn yn www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/12-13-14/97